Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

sirgar.llyw.cymru
carmarthenshire.gov.wales

| | | | |
|---|---|---|---|
| Eich cyf / Your ref: | | Gofynner am / Please ask for: | Chris Pugh |
| Fy nghyf / My ref: | | Llinell Uniongyrchol / Direct Line: | 01267 246484 |
| Dyddiad / Date: | 30/01/24 | E-bost / E-mail: | prydauysgol@sirgar.gov.uk<br>schoolmeals@carmarthenshire.gov.uk |

Annwyl Bennaeth / Cadeirydd y Llywodraethwyr

Rydym wedi parhau i weithio gyda'r Gwasanaethau Eiddo a chontractwr enwebedig y Cyngor i wella seilwaith ein ceginau ac mae'n bleser gennyf roi gwybod ichi y byddwn yn cyflwyno Prydau Ysgol Am Ddim i ddisgyblion Blwyddyn 5 ar ôl hanner tymor mis Chwefror.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech roi gwybod i rieni'r disgyblion yn y grwpiau blwyddyn hyn am y diweddariad hwn. Mae hefyd yn hanfodol bod staff y gegin yn cael gwybod ar unwaith am unrhyw ofynion dietegol arbennig fel y gellir darparu ar gyfer pob disgybl yn ddiogel o'r wythnos sy'n dechrau ar 19 Chwefror.

Os yw eich plentyn yn derbyn prydau ysgol am ddim a/neu unrhyw fudd-daliadau cysylltiedig eraill ar hyn o bryd ni fydd effaith ar y rhain. Ar hyn o bryd mae'r broses ar gyfer gofyn am bryd ysgol am ddim yn parhau fel y mae ac mae teuluoedd yn cael eu hannog i wneud cais yn y ffordd arferol.

Diolch ichi am eich cydweithrediad ynghylch yr uchod.

Yn gywir,

S Davies

Simon Davies
**Pennaeth Mynediad i Addysg**

**Simon Davies, BA (Hons), PGCert**
Pennaeth Mynediad i Addysg, Adran Addysg a Phlant, Adeliad 2,
Parc Dewi Sant, Heol Ffynnon Job, Caerfyrddin, Sir Gaerfyrddin SA31 3HB
Head of Access to Education, Department for Education & Children, Building 2,
St David's Park, Job's Well Road, Carmarthen, Carmarthenshire SA31 3HB

CYFRANOGI · ARWAIN · CEFNOGI EIN POBL OUR PEOPLE ENGAGE · LEAD · SUPPORT
BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Mae croeso i chi gysylltu â mi yn y Gymraeg neu'r Saesneg
You are welcome to contact me in Welsh or English